nationalgrid

Dull y National Grid ar gyfer Cynllun a Lleoliad Llwybrau Trawsyrru Trydan Newydd

National Grid plc
1–3 Strand, London
WC2N 5EH United Kingdom
Registered in England and Wales
No. 4031152

www.nationalgrid.com

nationalgrid

Ni yw perchnogion a rheolwyr y grid y mae llawer o wahanol ffynonellau ynni wedi'u cysylltu ag ef. Ym Mhrydain, rydym yn rheoli systemau sy'n darparu nwy a thrydan ledled y wlad, felly mae gennym le hollbwysig yng nghanol y system ynni. Mae hyn yn golygu bod gennym gyfraniad annatod at un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu ein cymdeithas; creu atebion ynni cynaliadwy newydd a datblygu system ynni a fydd yn sail i'n llwyddiant economaidd yn yr unfed ganrif ar hugain.

Nod y National Grid yw cysylltu pobl â'r ynni maent yn eu defnyddio i wresogi a goleuo eu cartrefi, yr ynni sy'n pweru ein ffatrïoedd a'n swyddfeydd a'r seilwaith sy'n hollbwysig i'n ffordd fodern o fyw.

Cynllun a llwybr llinellau trawsyrru trydan newydd – dull y National Grid.
Page 01

Cyflwyniad

Nid oes gennym farn bendant pa ddull sydd orau – y dull uwchben neu y dull o dan ddaear – a byddwn yn ceisio sicrhau'r cydbwysedd gorau bob amser.

Yr Her Ynni a Thrawsyrru Trydan

Mae'r Deyrnas Unedig yn wynebu her fawr yn y ffordd mae'n cynhyrchu trydan. Fel gwlad, mae angen i ni sicrhau cyflenwadau ynni diogel a dibynadwy, gan fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ar yr un pryd. Mae hwn yn golygu buddsoddi'n sylweddol mewn ffynonellau ynni carbon isel newydd.

Rhan o'r her hon yw sicrhau bod y ffynonellau ynni newydd hyn, boed yn ffynonellau niwclear, gwynt neu fathau eraill o ynni adnewyddadwy, nwy neu lo glân, yn cael eu cysylltu â'r rhwydwaith trawsyrru trydan foltedd uchel er mwyn cludo'r trydan i ble bynnag mae ei angen. Yng Nghymru a Lloegr, bydd llawer o'r ffynonellau trydan newydd ar yr arfordir neu ar y môr, lle nad oes fawr ddim o seilwaith trawsyrru trydan ar hyn o bryd. Felly, bydd angen cysylltiadau trawsyrru trydan newydd yn yr ardaloedd hyn. Efallai y bydd hefyd angen i ni gyflawni gwaith ar rannau o'r rhwydwaith cyfredol i'w uwchraddio a'i atgyfnerthu fel ei fod yn addas i'r ffynonellau trydan carbon isel newydd hyn.

Mae penderfynu ble a sut i adeiladu llinellau trawsyrru trydan foltedd uchel newydd yn fater cymhleth. Mae'r rhan fwyaf o'r rhwydwaith cyfredol ar ffurf gwifrau uwchben, gan fod y rhain yn darparu'r ateb mwyaf economaidd i'r her trawsyrru ynni, ac felly'r effaith leiaf ar filiau defnyddwyr. Wrth i ni adeiladu rhwydwaith newydd y wlad, mae angen i ni sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen am gyflenwadau ynni diogel a dibynadwy, fforddiadwyedd i ddefnyddwyr ac effaith weledol y rhwydwaith.

Rydym yn ymwybodol iawn o effaith llinellau trawsyrru uwchben newydd ar dirwedd ac ar gymunedau lleol, ac rydym yn ystyried technolegau eraill i liniaru hyn megis gosod llinellau trydan newydd o dan y ddaear fel ceblau tanddaearol. Yn Saesneg, gelwir hyn yn "undergrounding". Aethom ati i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y pwnc hwn rhwng mis Rhagfyr 2010 a mis Gorffennaf 2011, ac rydym wedi gwrando ar gymunedau am y mater pwysig hwn. Nododd ymatebwyr i'r ymgynghoriad hwn eu cefnogaeth cryf o blaid gosod ceblau tanddaearol. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu sut rydym yn ystyried gosod ceblau tanddaearol, ynghyd â dulliau eraill o leihau effaith weledol ein llinellau trawsyrru.

Rhwydwaith Trawsyrru Trydan
Foltedd Uchel cyfredol y DU



Ein dyletswyddau a'n rhwymedigaethau

Rydym yn cael ein rheoleiddio gan Ofgem, rheoleiddiwr y marchnadoedd trydan a nwy, i sicrhau gwerth am arian i ddefnyddwyr. Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid i ni fodloni ein gwahanol ddyletswyddau statudol (gweler y dudalen ôl). O dan Ddeddf Trydan 1989, mae'n ofynnol i ni ddatblygu a chynnal system trawsyrru trydan effeithlon, cydgysylltiedig a darbodus, a hybu cystadleuaeth o ran cyflenwi a chynhyrchu trydan. Mae angen i ni fod yn gyfrifol am gostau prosiectau rydym yn eu hyrwyddo gan mai defnyddwyr trydan fydd yn talu'r costau hynny yn y pen draw.

Mae gennym hefyd ddyletswydd i ystyried pa mor ddymunol fyddai cynnal amwynder wrth ymgymryd â phrosiectau, sy'n cynnwys yr effaith ar gymunedau, tirwedd ac amwynder gweledol, treftadaeth ddiwylliannol ac adnoddau ecolegol. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, rydym yn ceisio osgoi ardaloedd sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol neu'n rhyngwladol am eu tirwedd, eu bywyd gwyllt neu eu harwyddocâd diwylliannol, fel Parciau Cenedlaethol.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw pob safle sy'n cael ei werthfawrogi gan gymunedau lleol ac sy'n gwneud cyfraniad pwysig at les y cymunedau hynny wedi'i gynnwys mewn ardaloedd dynodedig. Felly, mae ein dull gweithredu yn sicrhau ein bod yn ystyried holl effeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol posibl y prosiectau arfaethedig, yn hytrach na'r effeithiau hynny sy'n ymwneud â safleoedd dynodedig yn unig.

Sicrhau Cydbwysedd

Gall y gwaith o gyflawni ein holl ddyletswyddau fod yn gymhleth, felly rydym yn trin pob prosiect yn unigol er mwyn sicrhau'r cydbwysedd priodol. Cadarnhaodd ein rhanddeiliaid mai dyma'r dull cywir i'w ddefnyddio yn ystod ein hymgynghoriad cyhoeddus ar osod ceblau tanddaearol. Yn ein barn ni, y ffordd orau o sicrhau'r cydbwysedd hwn yw trwy:

- Ymgynghori'n eang ac yn effeithiol, a hynny wrth lunio cynigion prosiectau.
- Bod yn agored gyda gwybodaeth ac yn dryloyw ynglŷn â'n penderfyniada.
- Datblygu cynigion sy'n darparu'r hyn mae'r gymdeithas ei angen.

Yn y pen draw, rhaid i'r corff penderfynu perthnasol benderfynu a yw ein cynigion yn sicrhau'r cydbwysedd cywir, felly rydym yn ceisio cyflwyno cynlluniau sydd wedi'u datblygu a'u hystyried yn llawn i fod yn sail i'w penderfyniad.

Ein Proses

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu sut rydym yn adnabod y lleoliad a'r dechnoleg fwyaf priodol ar gyfer unrhyw lwybr trawsyrru trydan newydd er mwyn diwallu anghenion y gymdeithas orau. Mae'n amlinellu sut y byddwn yn casglu data, yn cynnal gwaith ymchwil a dadansoddi, yn ymgynghori â rhanddeiliaid a chymunedau ac yn gwrando ar adborth er mwyn llywio ein dyfarniadau.

Mae'r broses yn cynnwys datblygu ein prosiectau o'r cam cynharaf o nodi dewisiadau lefel uchel hyd at gyflwyno cynigion manwl. Rydym yn dechrau trwy edrych ar yr holl ddewisiadau ymarferol, gall hwn gwmpasu ardal ddaearyddol eang iawn a nifer o wahanol dechnolegau megis ceblau o dan ddaear neu llinellau uwchben. Yna, byddwn yn cwtogi'r dewisiadau trwy broses dadansoddi ac ymgynghori manwl. Ar ôl pennu pa un o'r dewisiadau posibl fydd yn diwallu anghenion y gymdeithas, byddwn yn canolbwyntio ar leoliadau coridorau eang ar gyfer unrhyw linellau trawsyrru newydd trwy siarad â chymunedau lleol ac eraill, ac yna yn canolbwyntio ar union leoliad llinell newydd i leihau unrhyw effeithiau ar bobl leol.

Yn ystod pob cam o'r broses, byddwn yn cael gwybodaeth fanylach am y cyfyngiadau a all effeithio ar lwybr penodol. Gall y rhain gynnwys safleoedd dynodedig fel Parciau Cenedlaethol, ond gallent hefyd gynnwys ardaloedd heb eu dynodi fel tirweddau sensitif neu olygfeydd eiconig. Wrth i ni ddysgu mwy, rydym yn ôl-wirio pob cam i sicrhau a oes unrhyw wybodaeth newydd ar gael ac a fyddai yn efffeithio ar y dechnoleg neu'r llwybr gorau.

Mae ein dull yn cael ei lywio gan ganlyniadau ein hymgynghoriad ar osod ceblau tanddaearol a'n profiad o brosiectau seilwaith trawsyrru mawr. Mae'n cydymffurfio â gofynion Deddf Cynllunio 2008 a'r Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Seilwaith Rhwydweithiau Trydan (EN-5), ac yn cadw at egwyddorion Reolau Holford sy'n rhoi canllawiau ar osod gwifrau uwchben.

We deal with each project case by case basis and this can sometimes mean that we must depart slightly from this approach, for example by including additional consultation stage. We always ensure that we fulfill our obligations.

We will review our Approach in the light of:

- newidiadau i'n cyfrifoldebau, deddfwriaeth, canllawiau neu bolisïau'r llywodraeth;
- newidiadau i ganllawiau arfer gorau wrth gynnal arfarniadau amgylcheddol, cymdeithasol neu economaidd;
- datblygiadau technolegol perthnasol, neu;
- wybodaeth newydd am gostau neu sut i ddefnyddio gwahanol dechnolegau.

I gael rhagor o wybodaeth am Reolau Holford a'n dyletswyddau statudol eraill ewch i dudalen 18

Nod y broses hon, a ddisgrifir yn llawn dros y dudalen, yw darparu canllawiau i'n timau prosiect ac i'r holl randdeiliaid â diddordeb yn ein prosiectau. Mae pob prosiect yn wahanol ac os bydd angen i ni wyro o'r broses hon, byddwn yn esbonio'r rhesymau dros hynny ac yn sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni ein holl rwymedigaethau.

Cam 1 – **Dewisiadau strategol**

Cam 2 – **Nodi Lleoliadau a Llwybrau**

Cam 3 – **Nodi Lleoliadau a Llwybrau yn Fanwl**

Cam 4 – **Y Cais Arfaethedig**

Cam 5 – **Cais am Ganiatâd Datblygu**

Cam 6 – **Ystyried a Gwrandawiad**



Cam 1
Dewisiadau strategol

Yn y cam yma, rydym yn archwilio gyda'n rhanddeiliaid y gwahanol ffyrdd y gallwn ddiwallu'r angen am seilwaith newydd mewn ardal benodol ac yn trafod y dewisiadau hynny a sut rydym yn eu hasesu gyda rhanddeiliaid allweddol.

Beth sydd ei angen?

Gallai'r anghenion canlynol gael eu nodi: cysylltu ffynonellau'r genhedlaeth newydd â'r rhwydwaith cyfredol; creu mwy o gapasiti yn ôl yr angen yn y rhwydwaith cyfredol; neu fuddsoddi er mwyn paratoi ar gyfer ffynonellau y genhedlaeth newydd posibl. Caiff yr angen ei adolygu drwy gydol datblygiad y prosiect.

A oes angen seilwaith newydd?

Rydym bob amser yn ystyried a yw'r rhwydwaith cyfredol yn gallu diwallu anghenion y cwsmer neu gapasiti mewn ffordd economaidd ac effeithlon cyn ystyried adeiladu unrhyw seilwaith newydd. Rydym yn ystyried opsiynau eraill er mwyn bodloni anghenion, sydd yn gallu cynnwys newid trefniadau gyda chwsmeriaid, sutrydym ni'n gweithredu'r rhwydwaith neu fuddsoddi mewn offer i wella'r defnydd o'r rhwydwaith cyfredol er mwyn lleihau neu osgoi'r angen ar gyfer buddsoddiad sylweddol. Fel arfer mae hyn yn fwy cynaliadwy, yn rhatach ac yn debygol o gael llai o effaith weledol.

Nodi "Dewisiadau Strategol"

Os bydd angen seilwaith newydd, byddwn yn ystyried yr holl wahanol ffyrdd y gallwn gyflawni hyn. Gelwir hyn yn "cynhyrchu dewisiadau strategol". Byddwn yn nodi nifer o wahanol ddewisiadau strategol, a all gynnwys:

- gwahanol dechnolegau (fel ceblau tanddaearol, gwifrau wedi'u hinswleiddio â nwy, gwifrau uwchben neu geblau Cerrynt Uniongyrchol Foltedd Uchel (HVDC) tanfor);
- gwahanol bwyntiau cysylltu daearyddol; neu
- gyfuniad o'r ddau.

Hidlydd Cydymffurfiaeth Dechnegol

Cyn i ni wneud unrhyw waith pellach, byddwn yn sicrhau y byddai'r holl ddewisiadau strategol posibl yn gweithio ar ein rhwydwaith ac yn gwrthod unrhyw ddewisiadau na fyddent yn bodloni safonau technegol. Rydym yn gwneud hyn gan fod angen i ni ddeall pa ddewisiadau fyddai'n gweithio'n ymarferol cyn siarad â rhanddeiliaid.

Hidlydd Buddiannau

Mae yna lawer o ffyrdd y gallem ddiwallu'r angen a nodir, a bydd llawer ohonynt yn debyg iawn. Rydym yn lleihau nifer y dewisiadau i randdeiliaid mewn modd agored a thryloyw trwy sicrhau bod gan bob dewis strategol sy'n mynd ymlaen i gael ei arfarnu ymhellach ryw fath o fudd dros ddewis arall.

Mae'r bocs ar ymgynghori ar Dudalen 16 yn esbonio mwy ynglŷn â phwy rydym yn ymgynghori â nhw a phryd.

Mae rhagor o wybodaeth am Arfarnu Opsiynau ar dudalen 17

Ymgynghori â Rhanddeiliaid Allweddol

Yng nghamau cynnar y prosiect, rydym yn ymgynghori â nifer o sefydliadau – ein rhanddeiliaid allweddol – sy'n cynrychioli buddiannau statudol, y gymdeithas ehangach a chymunedau lleol. Rydym yn siarad â rhanddeiliaid allweddol am y dewisiadau rydym yn eu hystyried a sut y dylem eu hasesu. Rydym yn gofyn am eu barn ar ba ystyriaethau ddylai lywio ein penderfyniadau yn seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig i randdeiliaid lleol, ac rydym yn paratoi strategaeth ymgynghori.

Arfarnu Opsiynau

Arfarnu Opsiynau yw'r dull rydym yn ei ddefnyddio i gymharu opsiynau a dadansoddi eu costau a'u buddiannau cymharol. Rydym yn defnyddio dull o'r enw Dadansoddiad Aml-Faen Prawf (MCA) sy'n defnyddio dull strwythurol i ddewis yr opsiynau mwyaf ffafriol ymhlith dewisiadau amgen. Mae hyn yn golygu y gall rhanddeiliaid weld ar ba sail y gwnaethom ein penderfyniadau a chydbwyso ein dyletswyddau. Mae'r dull hwn, sy'n cydymffurfio â chanllawiau'r Llywodraeth ar sut i arfarnu opsiynau prosiect (a elwir yn Llyfr Gwyrdd y Trysorlys), yn ein galluogi i gymharu ffactorau ariannol ac ansoddol. Rydym yn ystyried materion amgylcheddol, economaidd-gymdeithasol a thechnegol ochr yn ochr â chost cyfalaf a chost oes pob dewis strategol.

Ymgynghori â Rhanddeiliaid Allweddo

Rydym yn ymgynghori â'n rhanddeiliaid allweddol ar ganlyniadau'r arfarniad ac yn gofyn am eu barn am y gwahanol ddewisiadau strategol.

Y Dewis Strategol a Ffefrir

Rydym yn nodi dewis neu ddewisiadau strategol a ffefrir i'w (h)asesu ymhellach. Gall hyn gynnwys dewis y math o dechnoleg neu nodi pwyntiau cysylltu. Caiff y dechnoleg detholedig ei ddatblygu ymhellach yng Ngham 2.

Os ffefrir defnyddio gwifrau uwchben yn bennaf yn y cam hwn, bydd y broses arfarnu ac ymgynghori'n parhau trwy gydol Camau 2 a 3. Mi fydd y broses yma yn ystyried y ffyrdd y gellir lleihau effaith llinell newydd, a all arwain at osod ceblau tanddaearol mewn rhai ardaloedd. Yn y cam hwn, efallai y byddwn hefyd yn edrych am ddewisiadau sy'n cyflwyno cyfle i ddileu seilwaith cyfredol er mwyn lleihau cyfanswm y gwifrau sy'n weledol.

Gallwn hyrwyddo dewis strategol i osod ceblau tanfor neu danddaearol yn bennaf yn y cam hwn, yn enwedig os oes cyfyngiadau sylweddol mewn perthynas â thirwedd neu faterion gweledol. Gall cyfyngiadau o'r fath gynnwys: lleoliadau ag anawsterau ffisegol o ran gosod gwifrau uwchben (megis mewn ardaloedd trefol neu fynyddoedd) neu bresenoldeb tirweddau gwerth uchel fel Parciau Cenedlaethol neu Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Weithiau, mae yna gyfyngiadau sylweddol ar osod ceblau tanfor neu danddaearol, megis porthladdoedd pwysig neu grynodiadau sylweddol o archeoleg dan y ddaear.

Allbynnau

Achos Anghenion

Adroddiad Dewisiadau Strategol gan gynnwys Arfarnu Opsiynau

Strategaeth Ymgynghoriad ar Brosiectau

Cam 2
Nodi Lleoliadau a Llwybrau

Yng Ngham 2, rydym yn nodi ac arfarnu nifer o goridorau llwybr posibl lle gellid lleoli'r llinell drawsyrru ac yn nodi lleoliadau posibl ar gyfer seilwaith cysylltiedig. Rydym yn ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol a chymunedau lleol unwaith eto.

Astudiaethau Coridor Llwybr

Cynhelir astudiaethau coridor llwybr i nodi coridorau bras posibl ar gyfer y llwybr trawsyrru newydd o fewn yr holl ddewisiadau strategol rydym yn eu hystyried. Cynhelir astudiaethau lleoliad tebyg i nodi lleoliadau addas ar gyfer y seilwaith, megis is-orsafoedd neu orsafoedd trosi os oes angen.

Wrth nodi llwybrau gwifrau uwchben, rydym yn defnyddio Rheolau Holford (gweler y dudalen ôl) ac yn dechrau ystyried pa fathau o ddulliau lliniaru a allai wneud iawn am unrhyw effeithiau gweledol neu effaith ar y dirwedd.

Gall y gwaith o nodi llwybrau ar gyfer ceblau tanfor gael ei effeithio gan gyfyngiadau ar y lan megis erydu arfordiroedd neu systemau twyni tywod sensitif, cyfyngiadau morol fel lonydd llongau, pysgodfeydd a phorthladdoedd mawr, a chyfyngiadau ecolegol fel Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig neu Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Os nodir cyfyngiad yn y cam hwn na ellid ei osgoi neu ei liniaru, efallai y bydd angen i ni ailystyried dewisiadau ar y tir.

Ar gyfer dewisiadau tanddaearol ar y tir, byddem yn ystyried y math o dechnoleg (gwifrau wedi'u hinswleiddio â pholyethylen (XLPE) neu nwy (GIL) wedi'u croes-gysylltu) ac a fyddai'r cebl yn cael ei gladdu'n uniongyrchol neu mewn cafn neu dwnel. Wrth nodi llwybrau ceblau tanddaearol, efallai y byddwn yn cael ein cyfyngu gan ddatblygiadau adeiladu, topograffi, y math o bridd neu ddefnydd presennol y tir. Efallai y bydd y gwaith hefyd yn effeithio ar gynefinoedd gwerthfawr neu safleoedd treftadaeth ddiwylliannol. Mewn achosion o'r fath, rydym yn ceisio dod o hyd i goridor sy'n osgoi'r cyfyngiadau hyn yn gyfan gwbl. Os nad yw hynny'n bosibl, efallai y byddwn yn ystyried gosod gwifrau uwchben ar ran o lwybr sydd fel arall yn danddaearol. Os felly, bydd angen rhoi ystyriaeth fanwl i leoliad compowndiau pen selio (a ddefnyddir i drosi o geblau tanddaearol i wifrau uwchben).

Ymgynghori â Rhanddeiliaid Allweddol

Rydym yn ymgynghori â'n rhanddeiliaid allweddol ar y coridorau posibl rydym yn eu hystyried ac am gam nesaf y gwaith Arfarnu (isod). Unwaith eto, byddwn yn derbyn barn y rhandeiliaid lleol am y ffactorau sydd bwysicaf iddynt hwy ac a ddylai gael y flaenoriaeth fwyaf wrth benderfynu pa goridorau fyddai'n diwallu orau anghenion y gymdeithas.

Arfarnu Opsiynau

Byddwn unwaith eto'n defnyddio dull arfarnu opsiynau i gyfrifo'r goblygiadau amgylcheddol, economaidd-gymdeithasol, technegol a chost sy'n gysylltiedig â'r gwahanol ddewisiadau coridor. Yn y cam hwn, bydd gennym wybodaeth fanylach am y gwahanol goridorau a byddwn yn cynnal arfarniad llawnach.

Ymgynghori â Rhanddeiliaid a Chymunedau

Ar ddiwedd Cam 2, byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn sy'n archwilio'r holl ddewisiadau rydym wedi'u hystyried ac yn gofyn am farn pobl am y dewis strategol a ffefrir a'r coridorau posibl rydym wedi'u nodi i gyflawni hyn. O ganlyniad i'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn, efallai y byddwn yn ailarchwilio dewisiadau yr oeddem wedi'u hepgor yn flaenorol neu'n ystyried dewisiadau newydd a gynigiwyd gan aelodau'r cyhoedd. Byddwn yn cynhyrchu adroddiad adborth a fydd yn nodi'r holl sylwadau a dderbyniwyd a sut rydym yn bwriadu eu hystyried. Os na allwn ystyried sylwadau rhywun, byddwn yn esbonio pam.

Dewis Coridor Llwybr a Ffefrir

Defnyddir canlyniadau'r ymgynghoriad, ynghyd â'r holl astudiaethau a gynhaliwyd hyd yma, i nodi'r coridor neu'r coridorau a ffefrir.

Mewn achosion lle rydym wedi dewis defnyddio gwifrau uwchben yn bennaf, efallai y byddwn yn cynnig coridor â gwifrau uwchben yn gyfan gwbl neu goridor sy'n cyfuno technolegau uwchben a thanddaearol, yn dibynnu ar y cyfyngiadau a nodir yng Ngham 2. Gall ceblau tanddaearol gael eu gosod yn y llefydd canlynol: lleoliadau ag anawsterau ffisegol o ran gosod gwifrau uwchben (megis mewn ardaloedd trefol), croesfannau afonydd neu forydau llydan, tirweddau gwerth uchel (gan gynnwys Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), ond a allai hefyd gynnwys tirweddau sensitif a golygfeydd eiconig neu ardaloedd lle mai gosod ceblau tanddaearol yn unig fyddai'n lliniaru effeithiau posibl eraill). Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol a chaiff pob prosiect ei ystyried fesul achos.

Os mai defnyddio gwifrau uwchben yn bennaf yw'r llwybr a ffefrir, bydd angen parhau â'r broses arfarnu ac ymgynghori trwy gydol Cam 3, ac efallai y byddwn yn cynnig gosod ceblau tanddaearol ar rannau o'r llwybr.

Os mai dewis strategol tanfor a ddewiswyd, byddwn yn nodi'r coridor morol a ffefrir a'r lleoliadau ar gyfer unrhyw seilwaith cysylltiedig ar y tir. Os ydym wedi dewis defnyddio dewis strategol tanddaearol, byddwn yn nodi'r coridor tanddaearol a ffefrir a'r lleoliadau ar gyfer unrhyw seilwaith cysylltiedig uwchlaw'r ddaear. Mewn rhai achosion, efallai na fyddwn yn gwneud penderfyniad ar dechnoleg yng Ngham 2. Yn hytrach, byddwn yn nodi coridor ar y tir ac yn ystyried pa dechnoleg sydd fwyaf priodol yng Ngham 3 pan fydd gennym ddealltwriaeth lawn o'r holl gyfyngiadau.

Allbynnau

Astudiaeth Coridor Llwybr gan gynnwys Arfarnu Opsiynau

Datganiad Ymgynghori â'r Gymuned Drafft

Cam 3
Nodi Lleoliadau a Llwybrau yn Fanwl

Ar ôl nodi coridor bras, byddwn yn archwilio'r coridor hwnnw i nodi ac arfarnu'r llwybr a ffefrir ar gyfer y llinell drawsyrru a lleoliadau unrhyw seilwaith cysylltiedig. Rydym yn gwneud hyn mewn cydweithrediad agos â rhanddeiliaid megis tirfeddianwyr, pobl leol a sefydliadau.

Datblygu Llwybr Manwl

Waeth a yw'r coridor llwybr a ffefrir uwchben, o dan y ddaear neu o dan y môr yn bennaf, cynhelir gwaith arolygu ac asesu manwl i ddod o hyd i'r llwybr ar gyfer y linell drawsyrru sy'n bodloni ein holl rwymedigaethau ac yn diwallu anghenion rhanddeiliaid orau. Trwy wneud hynny, rydym yn ceisio osgoi unrhyw effeithiau ar bobl, aneddiadau ac ardaloedd amgylcheddol sensitif.

Rydym yn parhau i ddiwygio'r llwybr manwl i leihau unrhyw effeithiau gweledol ac effeithiau amgylcheddol eraill mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid a chymunedau.

Mewn achosion lle mae llwybr uwchben yn bennaf wedi'i ddewis, byddwn yn parhau i ddefnyddio Rheolau Holford a byddwn yn nodi unrhyw ardaloedd lle byddai'n fwy priodol gosod y seilwaith o dan y ddaear. Efallai y byddwn yn cynnig dulliau lliniaru eraill, a allai gynnwys plannu coed, defnyddio peilonau o gynllun gwahanol neu waredu seilwaith trawsyrru neu ddosbarthu trydan arall. Byddwn yn defnyddio'r un dull i nodi lleoliad seilwaith cysylltiedig ar y tir / uwchlaw'r ddaear, megis is-orsafoedd, gorsafoedd trosi neu gompowndiau pen selio.

Ymgynghori â Rhanddeiliaid a Chymunedau

Rydym yn parhau i gyfnewid gwybodaeth gyda'n rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r llwybr manwl. Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus trwy fforymau cymunedol lle byddwn yn cysylltu'n agored ac yn gofyn am farn cymunedau yng nghyffiniau'r llwybr arfaethedig. Byddwn hefyd yn sefydlu grwpiau thematig a fydd yn cynnwys arbenigwyr megis cynrychiolwyr lleol o ymgyngoreion technegol i adolygu ein hymagwedd at faterion penodol.

Byddwn yn ailystyried camau cynharach y prosiect yn ôl yr angen ac yn cyhoeddi canlyniadau ein hymgynghoriadau cyhoeddus, yn esbonio pam rydym wedi dewis cynnig penodol. Bydd hyn yn galluogi rhanddeiliaid i weld sut a ble rydym wedi gwneud penderfyniad ac ar ba sail rydym wedi gwneud hynny. Byddwn yn datblygu ein Datganiad o Ymgynghoriad Cymunedol sy'n amlinellu sut y byddwn yn ymgynghori ar ein cynigion a chyda phwy.

Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ac Arfarnu Opsiynau

Byddwn yn cynnal asesiad llawn o effaith amgylcheddol y llwybr manwl a ffefrir a byddwn yn ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol ar gwmpawd a chanlyniadau'r astudiaeth hon. Byddwn yn defnyddio'r dull Arfarnu Opsiynau i gymharu perfformiad amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol llwybrau amgen, a byddwn yn cyhoeddi canlyniadau ein harfarniad o'r llwybr a ffefrir.

Allbynnau

- Datganiad Amgylcheddol
- Tabl Crynodeb Arfarnu Opsiynau
- Datganiad Ymgynghori â'r Gymuned



Cam 4
Y Cais Arfaethedig

Yng Ngham 4, rydym yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar ein cynigion i'n helpu ni i baratoi ein cais am ganiatâd.

Ymgynghori â'r holl randdeiliaid

Byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar ein cais arfaethedig fel sy'n ofynnol gan Adrannau 42 a 47 o'r Ddeddf Cynllunio (2008). Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys cymunedau, cynghorau lleol, ymgyngoreion arbenigol a'r rheini a all gael eu heffeithio gan ein cynigion. Ar ddiwedd y cam ymgynghori, byddwn yn adolygu ein cynigion ac yn gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r cynigion hynny yng ngoleuni gwybodaeth a dderbyniwyd trwy'r ymgynghoriad. Os bydd angen, byddwn yn cyflawni gwaith arolygu ac arfarnu pellach ar atebion amgen.

Byddwn yn cynhyrchu Adroddiad Ymgynghori sy'n amlinellu'r holl adborth rydym wedi'i dderbyn trwy gydol y broses a sut rydym wedi ymateb iddo. Bydd hyn yn galluogi'r holl randdeiliaid sydd wedi cyfrannu i weld sut mae eu sylwadau wedi'u hystyried.

Mae enghreifftiau o Adroddiadau Ymgynghori cyfredol ar ein gwefan

Paratoi Dogfennau

Ar ôl cynnal asesiadau manwl ac ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol, byddwn yn paratoi'r holl ddogfennau sydd eu hangen ar gyfer ein cais arfaethedig.

Byddwn yn ymgynghori ag Awdurdodau Cynllunio Lleol ac yn ceisio cytuno ar Ddatganiadau o Dir Cyffredin gyda nhw ac, o bosibl, bartïon eraill â buddiant.

Allbynnau

- Adroddiad ymgynghor
- Dogfennau'r Cais
- Datganiadau o Dir Cyffredin



Cam 5
Cais am Ganiatâd Datblygu

Cyflwyno'n cais

Ar ôl i ni asesu canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r cynigion, byddwn yn cyflwyno ein cais am ganiatâd datblygu i'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith (IPC) neu'r corff penderfynu perthnasol.

Rydym yn dilyn prosesau'r IPC ar gyfer ceisiadau mewn perthynas â gwifrau uwchben yng Nghymru a Lloegr. Byddwn yn cyflwyno hysbysiad ffurfiol i'r cyhoedd, rhanddeiliaid allweddol a chyrff eraill a ragnodir yn y Ddeddf Cynllunio (2008) am ein cais a bydd y rhanddeiliaid hyn yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau perthnasol i'r IPC ac i gofrestru eu hunain fel partïon â buddiant.

Yng Nghymru, bydd caniatâd ar gyfer unrhyw ddatblygiad ychwanegol sy'n gysylltiedig â gwifrau uwchben, megis is-orsafoedd, yn cael ei ystyried gan yr awdurdod cynllunio lleol perthnasol; yn Lloegr, bydd ein cais i'r IPC fel arfer yn cynnwys y seilwaith cysylltiedig hwn.

Mae ceblau tanddaearol yng Nghymru a Lloegr yn cael eu hystyried fel datblygu a ganiateir sy'n golygu nad ydynt yn rhan o'r broses gynllunio. Mae unrhyw geisiadau cynllunio ar gyfer seilwaith cysylltiedig uwchlaw'r ddaear, megis compowndiau pen selio ac is-orsafoedd, yn cael eu hystyried gan yr awdurdod cynllunio lleol perthnasol.

Ar gyfer ceblau tanfor, caiff ceisiadau yn nyfroedd Cymru eu hystyried gan Lywodraeth Cymru a cheisiadau yn nyfroedd Lloegr eu hystyried gan y Sefydliad Rheoli Morol. Yn y ddau achos, caiff ceisiadau ar gyfer seilwaith cysylltiedig ar y tir, megis gorsafoedd trosi, eu hystyried gan yr awdurdod cynllunio lleol perthnasol.

Cam 6
Ystyried a Gwrandawiad

Yn ystod y cam ystyried, byddwn yn darparu rhagor o wybodaeth am ein cynigion fel sy'n ofynnol ar gyfer gwrandawiad neu Ymchwiliad Cyhoeddus.

Byddwn yn parhau i ddilyn proses yr awdurdod penderfynu perthnasol (gweler Cam 5) ac ymgysylltu â phartïon â buddiant.

Bydd partïon â buddiant yn cael cyfle i ddylanwadu ar y corff penderfynu trwy gyflwyno sylwadau ysgrifenedig neu roi tystiolaeth mewn gwrandawiad neu Ymchwiliad Cyhoeddus.

Â phwy rydym yn ymgynghori?

Rhanddeiliaid allweddol

Mae ein rhanddeiliaid allweddol ar gyfer y rhan fwyaf o brosiectau'n cynnwys y canlynol:

- Awdurdodau lleol
- Asiantaeth yr Amgylchedd
- Cadw a/neu English Heritage
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru a/neu Natural England
- Llywodraeth Cymru a/neu'r Sefydliad Rheoli Morol
- Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur
- Partïon eraill a gynigir gan yr uchod
- Scottish Natural Heritage a Marine Scotland ar gyfer prosiectau sy'n cysylltu â'r rhwydwaith yn yr Alban

Rydym yn ymgynghori â'r partïon hyn yng nghamau cynharaf ein prosiectau i sicrhau ein bod yn ystyried y cyngor technegol a'r wybodaeth leol orau wrth ddechrau datblygu ein prosiectau. Mae'r grŵp o randdeiliaid yn cael ei ehangu a'i ddiwygio wrth i'r prosiect ddatblygu. Yn y camau cynnar hyn, fel arfer nid ydym yn ymgynghori â'r cyhoedd yn ffurfiol gan nad oes gennym ddigon o wybodaeth am leoliad unrhyw linellau newydd i gynnal deialog ystyrlon. Fodd bynnag, rôl grwpiau lleol, gan gynnwys awdurdodau cynllunio lleol, yn y cam hwn yn rhannol yw cynrychioli barn leol.

Beth yw rôl y cyhoedd?

Rydym yn siarad â phobl a fydd yn cael eu heffeithio gan ein llinellau trawsyrru newydd yn gyson wrth ddatblygu pob prosiect. Fel arfer, cynhelir ein hymgynghoriad cyhoeddus cyntaf yng Ngham 2, ond bydd yn rhoi sylw i'r holl faterion yn ymwneud â datblygiad y prosiect hyd hynny, gan gynnwys yr achos anghenion, dewisiadau strategol a dewisiadau coridor llwybr. Mae hyn yn rhoi cyfle i gymunedau lleol adolygu'r penderfyniadau rydym wedi'u gwneud, a'r wybodaeth rydym wedi seilio'r penderfyniadau hynny arni. Rydym yn cyhoeddi canlyniadau ein holl ymgynghoriadau fel y gall rhanddeiliaid weld sut y maent wedi dylanwadu ar y cynllun.

Yn y cam nodi llwybrau manwl, rydym yn siarad yn rheolaidd â'n hymgynghorwyr, gan gynnwys rhanddeiliaid mwy lleol fel cynghorau plwyf a grwpiau buddiant lleol. Rydym hefyd yn ymgynghori â thirfeddianwyr ar hyd y llwybr manwl arfaethedig. Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus llawn arall cyn cyflwyno cais i gael caniatâd datblygu.

Ar ôl cyflwyno cais, gan ystyried adborth pobl leol, gall y cyhoedd barhau i gyflwyno sylwadau i'r corff penderfynu perthnasol, naill ai ar bapur neu'n bersonol mewn gwrandawiad neu Ymchwiliad Cyhoeddus.

Arfarniad Dewisiadau

Arfarnu Opsiynau yw'r dull rydym yn ei ddefnyddio i gymharu dewisiadau a chynnal dadansoddiad cost a budd. Rydym yn defnyddio techneg o'r enw Dadansoddiad Aml-Faen Prawf (MCA) sy'n defnyddio dull strwythurol o asesu manteision ac anfanteision gwahanol ddewisiadau sy'n ymarferol yn dechnegol. Mae'r dull hwn yn caniatáu i ni gymharu ffactorau ariannol ac ansoddol, ac mae'n ystyried materion amgylcheddol, economaidd-gymdeithasol a thechnegol ochr yn ochr â chost cyfalaf a chost oes pob dewis.

Mae ein methodoleg Arfarnu Opsiynau yn ystyried y canlynol (y cyfeirir atynt yn ein canllawiau mewnol fel 'pynciau' ac 'is-bynciau') wrth arfarnu opsiynau strategol neu goridorau llwybr amgen.

Mae'r fethodoleg yn ein helpu i asesu goblygiadau pob dewis ar draws amrywiaeth o faterion hanfodol gan ystyried mewnbwn rhanddeiliaid allweddol a'r cyhoedd. Trwy asesu pob un o'r meysydd hyn, rydym yn gallu penderfynu pa ddewis fydd yn darparu'r seilwaith angenrheidiol ac yn cydbwyso'r gwahanol ystyriaethau, megis lleihau'r effaith weledol a lleihau'r gost i ddefnyddwyr. Nid oes yna hierarchaeth rhwng y gofynion amgylcheddol, economaidd-gymdeithasol, technegol a chost, a bydd pob prosiect yn ystyried barn rhanddeiliaid wrth benderfynu faint o bwys i'w briodoli i wahanol is-bynciau.

Er y bydd canlyniadau'r dull Arfarnu Opsiynau yn llywio penderfyniadau, nid yw'r fethodoleg ynddi'i hun yn darparu'r ateb. Yn hytrach, mae'n amlinellu'n wrthrychol oblygiadau'r gwahanol ddewisiadau ar draws ystod eang o bynciau, ac yn dangos yn fras pa ddewis sy'n perfformio orau ym mhob maes. Bydd yr is-bynciau hynny a ystyrir yn arbennig o bwysig gan y rhanddeiliaid yn cael eu hystyried yn fanwl yn y broses benderfynu.

Mae Arfarnu Opsiynau yn ffordd gadarn a thryloyw o benderfynu ar y dewis mwyaf addas, gan sicrhau y bydd yr holl bartïon â buddiant yn gallu deall y wybodaeth a'r ddadansoddiad sy'n sail i'r penderfyniadau rydym yn eu gwneud.

Amgylcheddol

- Tirwedd/Gweledol
- Ecoleg
- Treftadaeth Ddiwylliannol
- Ansawdd Aer
- Sŵn a Dirgryniad
- Priddoedd a Daeareg
- Materion Dŵr
- Adnoddau a Gwastraff
- Nwyon Tŷ Gwydr ac Effeithlonrwydd Ynni
- Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd

Economaidd-Gymdeithasol

- Pobl a Chymunedau
- Awyrennau ac Amddiffyn
- Traffig a Thrafnidiaeth
- Effaith ar yr Economi Leol

Technegol

- Technegol
- Diogelwch

Cost

- Cost Cyfalaf
- Cost Oes

Rheolau Holford

Amlinellwyd y canllawiau hyn ar nodi llwybrau gwifrau uwchben am y tro cyntaf ym 1959. Cânt eu cyflwyno yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Seilwaith Rhwydweithiau Trydan (EN-5) a byddant yn parhau i fod yn sail i'n gwaith o nodi llwybrau gwifrau uwchben.

Ers sefydlu'r Rheolau gwreiddiol, mae gofynion ffurfiol ar gyfer cynnal asesiad amgylcheddol wedi'u cyflwyno. Er bod asesiad amgylcheddol ar gyfer gwifrau uwchben yn mynd i'r afael â phynciau ehangach na'r mater amwynder gweledol y mae'r Rheolau'n canolbwyntio arno, maent yn dal i fod yn ddull defnyddiol o ran dewis ac asesu llwybrau posibl fel rhan o'r broses asesiad amgylcheddol. Amlinellir y Rheolau a'n nodiadau esboniadol ychwanegol isod.

Rheol 1

Os yn bosibl, ceisiwch osgoi'r ardaloedd â'r gwerth amwynder uchaf yn llwyr trwy gynllunio llwybr cyffredinol y llinell felly yn y lle cyntaf, hyd yn oed os yw cyfanswm y milltiroedd yn cynyddu rhywfaint o ganlyniad.

Nodyn ar Reol 1

Ymchwiliwch i'r posibilrwydd o lwybrau amgen, gan osgoi'r ardaloedd â'r gwerth amwynder uchaf os yn bosibl. Rhaid i'r gwaith o ystyried llwybrau amgen fod yn rhan annatod o ddatganiadau amgylcheddol.

Mae'r ardaloedd â'r gwerth amwynder uchaf yn cynnwys: Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol; Parciau Cenedlaethol; Arfordiroedd Treftadaeth; Safleoedd Treftadaeth y Byd; a Pharciau a Gerddi Cofrestredig.

Rheol 2

Ceisiwch osgoi ardaloedd bach o werth amwynder uchel neu ddiddordeb gwyddonol trwy wyro'r llwybr, cyn belled ag y gellir gwneud hyn heb ddefnyddio gormod o dyrau ongl h.y. y strwythurau mawr a ddefnyddir pan fo llinellau'n newid cyfeiriad.

Nodyn ar Reol 2

Efallai y bydd angen rhoi sylw arbennig i'r effaith bosibl ar ecoleg (e.e. fflora a ffawna) mewn rhai ardaloedd (e.e. Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig).

Os yn bosibl, dewiswch lwybrau sy'n lleihau'r effeithiau ar ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol, hanesyddol ac archeolegol, gan gynnwys Ardaloedd Cadwraeth, Adeiladau Rhestredig, Parciau a Gerddi Rhestredig a Henebion. Unwaith eto, cofiwch efallai na fydd rhai safleoedd â gwerth o fewn ardaloedd dynodedig.

Rheol 3

Os bydd popeth arall yn gyfartal, dewiswch y llinell fwyaf uniongyrchol, heb unrhyw newidiadau cyfeiriad sydyn, gan y bydd angen llai o dyrau ongl.

Nodyn ar Reol 3

Os yn bosibl, dewiswch leoliadau anamlwg ar gyfer tyrau ongl, tyrau terfynol a chompowndiau pen selio.

Rheol 4

Dewiswch gefndiroedd o goed a bryniau yn lle cefndiroedd awyr os yn bosibl. Os oes rhaid i linell groesi crib, defnyddiwch gefndir didraidd am gyhyd â phosibl, ac yna croesi ar osgo os bydd pant yn y grib yn rhoi cyfle i wneud hynny. Os nad yw hynny'n bosibl, croeswch y grib yn uniongyrchol, rhwng lleiniau o goed o ddewis.

Rheol 5

Dewiswch ddyffrynnoedd cymedrol agored gyda choedwigoedd gan y bydd y tyrau'n ymddangos yn fyrrach a'r coed yn torri ar yr olygfa.

Nodyn ar Reolau 4 a 5

Defnyddiwch nodweddion cefndirol a blaendirol i wneud i dyrau ymddangos yn fyrrach a llai amlwg o fannau golygfa. Ceisiwch wneud tyrau'n llai gweladwy ar gribau a gorwelion amlwg. Os yn bosibl, ceisiwch osgoi torri coridorau mawr trwy goetiroedd ac ystyriwch gyfleoedd i osod y tyrau ar ymylon coedlannau a choedwigoedd. Ceisiwch warchod llysdyfiant cyfredol, gan gynnwys coetiroedd a gwrychoedd, a diogelu cysylltiadau gweledol ac ecolegol gyda'r tirweddau cyfagos.

Rheol 6

Os bydd y tir yn wastad a heb fawr o blanhigion, cadwch y llinellau foltedd uchel ar wahân i linellau llai, llwybrau cydgyfeiriol, polion dosbarthu a mastiau, gwifrau a cheblau eraill gymaint ag y gallwch er mwyn osgoi crynodiad o wifrau.

Nodyn ar Reol 6:

Ym mhob lleoliad, ceisiwch leihau ymddangosiad dryslyd.

Os yn ymarferol, trefnwch fod llwybrau paralel neu debyg yn cael eu cynllunio fel bod y mathau o dyrau, rhychwantau a dargludyddion yn creu ymddangosiad cydlynol; os bydd angen i lwybrau ddargyfeirio, os yn ymarferol, gofalwch fod digon o le rhyngddynt i leihau'r effeithiau ar eiddo a nodweddion rhwng y llinellau.

Rheol 7

Ewch i mewn i ardaloedd trefol trwy barthau diwydiannol, os ydynt yn bodoli; os oes rhaid croesi tir preswyl a hamdden dymunol i gyrraedd yr is-orsaf, aseswch gostau cymharol gosod ceblau tanddaearol.

Nodyn ar Reol 7

Os bydd angen gosod llinell trwy ardal ddatblygu, ceisiwch sicrhau'r effaith leiaf posibl ar y datblygiad.

Dylid dewis llwybrau manwl ar ôl ystyried yr effeithiau ar ddatblygiadau cyfredol a chynigion ar gyfer datblygiadau newydd.

Wrth nodi lleoliad is-orsafoedd, cofiwch ystyried effeithiau'r tyrau terfynol a'r cysylltiadau llinell y bydd angen eu gwneud a manteisio ar nodweddion sgrinio fel ffurf tir a llysdyfiant.

Nodiadau Atodol

Ardaloedd Preswyl

Os yn bosibl, ceisiwch osgoi gosod llwybrau yn ymyl ardaloedd preswyl ar sail amwynder cyffredinol.

Dynodiadau o Werth Sirol, Cylch a Lleol

Os yn bosibl, dewiswch lwybrau sy'n lleihau'r effaith ar Ardaloedd Tirwedd Arbennig, ardaloedd o Werth Tirwedd Uchel a dynodiadau tebyg eraill o Werth Sirol, Cylch a Lleol.

Cynlluniau Tyrau Amgen

Yn ogystal â mabwysiadu dull nodi llwybrau priodol, os yn briodol gwerthuswch defnyddio'r cynlluniau tyrau amgen sydd ar gael bellach.

Ein Dyletswyddau Statudol

Dyma rai o ddyletswyddau statudol y National Grid sydd fwyaf perthnasol i'r gwaith o ddatblygu seilwaith newydd.

Adran 9(2) o Ddeddf Trydan 1989 (Dyletswyddau cyffredinol ar ddeiliaid trwydded)

"Bydd gan ddeiliad trwydded sy'n rhoi awdurdod iddo drawsyrru trydan ddyletswydd:
(a) i ddatblygu a chynnal a chadw system effeithlon, cydgysylltiedig a darbodus o drawsyrru trydan;…"

Adran 38 ac Atodlen 9 o Ddeddf Trydan 1989

(1) Wrth ffurfio unrhyw gynigion perthnasol, bydd deiliad trwydded neu unigolyn ag awdurdod trwy eithriad i gynhyrchu, trawsyrru, dosbarthu neu gyflenwi trydan:

(a) yn rhoi sylw priodol i ddymunoldeb gwarchod harddwch naturiol, gwarchod fflora, ffawna a nodweddion daearegol neu ffisiograffigol o ddiddordeb arbennig a diogelu safleoedd, adeiladau a gwrthrychau o ddiddordeb pensaernïol, hanesyddol neu archeolegol; ac

(b) yn gwneud popeth o fewn ei allu i leihau unrhyw effaith y byddai'r cynigion yn ei chael ar harddwch naturiol cefn gwlad neu unrhyw fflora, ffawna, nodweddion, safleoedd, adeiladau neu wrthrychau o'r fath.

Adran 11A(2) o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 (Dyletswydd ar gyrff ac unigolion penodol i roi sylw priodol i ddibenion dynodi Parciau Cenedlaethol)

"Wrth gyflawni neu berfformio unrhyw swyddogaethau mewn perthynas â thir mewn Parc Cenedlaethol neu sy'n effeithio ar y tir hwnnw, dylai unrhyw awdurdod perthnasol roi sylw priodol i'r dibenion a nodir yn is-adran (1) o adran pump o'r Ddeddf hon ac, os bydd yn ymddangos bod yna wrthdaro rhwng y dibenion hynny, dylai roi mwy o sylw i'r diben o warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal yn y Parc Cenedlaethol."

Adran 85 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Dyletswydd gyffredinol ar gyrff cyhoeddus ac ati)
"(1) Wrth gyflawni neu berfformio unrhyw swyddogaethau mewn perthynas â thir mewn ardal o harddwch naturiol eithriadol neu sy'n effeithio ar y tir hwnnw, dylai awdurdod perthnasol roi sylw i'r diben o warchod a gwella harddwch naturiol yr ardal o harddwch naturiol eithriadol."

Mae Adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 yn nodi

"y dylai pob corff cyhoeddus roi sylw i'r diben o warchod bioamrywiaeth wrth gyflawni ei swyddogaethau, cyn belled â bod y swyddogaethau hynny'n parhau i gael eu cyflawni'n briodol."